



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd: Uwch Ddarlithydd mewn Addysg Gychwynnol Athrawon a Dysgu Proffesiynol (Arbenigedd Cynradd)

Ysgol: Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

Lleoliad: Campws Cyncoed

Gradd: 8AB

Cyflog: £53,301 - £61,759 y flwyddyn

Oriau 37 awr yr wythnos (ystyrir contractau rhan-amser / rhannol)

Cyfnod: Tymor Penodol, 1^{af} Tachwedd 2026 - 17^{eg} Rhagfyr 2027

Crynodeb Rôl:

Mae Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd (YAPhCC) yn cynnig pedair rhaglen AGA achrededig, TAR Cynradd (3-11), TAR Uwchradd (11-18), BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwys (SAC) a rhaglenni TAR Gweithwyr Ysgol Uwchradd. Mae'r rhain wedi'u hachredu gan y Gweithlu Addysg i Gymru.

Fel aelod o dîm YAPhCC byddwch yn gyfrifol am addysgu, datblygu cwricwlwm, ymchwil a dysgu proffesiynol ym maes addysg gychwynnol athrawon. Byddwch yn defnyddio strategaethau dysgu arloesol a chynhwysol sy'n gwasanaethu i ysgogi a chefnogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau academiaidd a phroffesiynol rhagorol.

Y prif ymrwymiad yw addysgu ac asesu ar raglenni BA (Anrh) Addysg Gynradd a TAR Cynradd a gweithio gydag ysgolion i rymuso athrawon dan hyfforddiant i wireddu eu potensial. Er y bydd ffocws penodol ar y cyfnod cynradd, rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd ddangos y gallu a'r parodrwydd i addysgu ar draws cyfnodau ar y rhaglen TAR Uwchradd (11-18) yn ogystal â rhaglenni nad ydynt yn SAC o fewn yr Ysgol.



PROFFIL RÔL

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cymorth addysgu a dysgu

- Cyfrannu at ddylunio, datblygu a chyflwyno ystod o raglenni astudio ar wahanol lefelau.
- Adolygu cynnwys a deunyddiau'r cwrs yn rheolaidd, gan ddiweddarau pan fo angen.
- Datblygu a chymhwyso technegau a deunyddiau addysgu priodol sy'n creu diddordeb, dealltwriaeth a brwdfrydedd ymhlith myfyrwyr.
- Sicrhau bod dyluniad a chyflwyniad cyrsiau yn cydymffurfio â safonau a rheoliadau ansawdd y brifysgol a'r adran.
- Goruchwylio prosiectau a lleoliadau myfyrwyr.
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth bresennol.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith a rhoi adborth i fyfyrwyr.
-

Ymchwil ac ysgolheictod

- Ymgysylltu ag ymchwil bedagogaid ac ymarferydd a gweithgareddau ysgolheigaidd eraill.
- Cyfrannu at ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu.
- Gweithio ar y cyd ag eraill i gymhwyso gwybodaeth am y pwnc i ymarfer.
- Ymgysylltu â gweithgaredd/ymchwil ysgolheigaidd pwnc, proffesiynol a phedegogaidd yn ôl yr angen i gefnogi gweithgareddau addysgu.
- Cymryd rhan mewn prosiectau ysgolheigaidd unigol neu gydweithredol.
- Estyn, trawsnewid a chymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ysgolheictod i addysgu a gweithgareddau allanol priodol.
- Datblygu a chynhyrchu deunyddiau dysgu a lledaenu canlyniadau gweithgaredd ysgolheigaidd.
- Cyfrannu at ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu sy'n seiliedig ar ymchwil

Cyfathrebu

- Lledaenu syniadau cysyniadol a chymhleth i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

Cyswllt a rhwydweithio

- Arwain a datblygu rhwydweithiau mewnol er enghraifft drwy gadeirio a chymryd rhan mewn pwyllgorau Ysgol a Sefydliadol.
- Rhoi cyngor proffesiynol e.e. gweithredu fel arholwr allanol.
- Arwain a datblygu rhwydweithiau allanol er enghraifft gydag arholwyr ac aseswyr allanol e.e. cymdeithasau proffesiynol.
- Datblygu cysylltiadau â chysylltiadau allanol fel cyrff addysgol eraill, cyflogwyr a chyrrff proffesiynol i feithrin cydweithio.

Rheoli pobl

- Darparu arweinyddiaeth academiaidd i'r rhai sy'n gweithio o fewn meysydd rhaglen, fel arweinydd cwrs neu gyfwerth, drwy er enghraifft gytuno ar gynlluniau gwaith i sicrhau bod cyrsiau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol neu drefnu gwaith tîm drwy gytuno ar amcanion a chynlluniau gwaith gan gyfeirio at y Llawlyfr Academiaidd.
- Cyfrannu at ddatblygiad timau ac unigolion.
- Gweithredu fel mentor personol i gyfoedion a chydweithwyr.
- Datrys problemau sy'n effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth cwrs a chynnydd myfyrwyr o fewn eich meysydd cyfrifoldeb eich hun, gan gyfeirio materion mwy difrifol at eraill, yn ôl yr angen.
- Arwain/cyfrannu at gyrsiau drwy weithgarwch addysgeg/ymchwil.

Gwaith tîm

- Helpu i arwain timau o fewn meysydd cyfrifoldeb.
- Helpu i sicrhau bod timau o fewn yr adran yn cydweithio.
- Cymryd rhan i helpu i ddatrys gwrthdaro o fewn a rhwng timau.

Gofal bugeiliol

- Yn gyfrifol am ddelio â materion a gyfeiriwyd atynt ar gyfer myfyrwyr o fewn eu rhaglenni addysgol ei hunain.
- Darparu cefnogaeth rheng flaen i gydweithwyr, gan eu cyfeirio at ffynonellau cymorth pellach os oes angen.
- Gweithredu fel tiwtor modiwl.

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Datrys problemau sy'n effeithio ar gyflwyno cyrsiau o fewn eich rhaglen addysgol eich hun ac yn unol â'r rheoliadau.
- Gwneud penderfyniadau ynghylch agweddau gweithredol eich rhaglen addysgol eich hun.
 - e.e. Cyfrannu at benderfyniadau sy'n cael effaith ar eraill rhaglenni cysylltiedig.
 - e.e. Monitro cynnydd a chadw myfyrwyr.
 - e.e. Rhoi cyngor ar faterion fel sicrhau bod digon o cydbwysedd poblogaeth myfyrwyr, penodiadau a myfyrwyr a materion perfformiad eraill.
 - e.e. Canfod cyfleoedd ar gyfer datblygiad strategol newydd cyrsiau neu feysydd gweithgaredd priodol a chyfrannu i ddatblygu syniadau o'r fath.

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Yn gyfrifol am gyflwyno eich rhaglenni addysgol eich hun.
- Cyfrannu drwy'r timau rydych yn aelod ohonynt at reolaeth gyffredinol yr adran mewn meysydd fel rheoli adnoddau, cynllunio busnes a rhaglenni.
- Arwain wrth osod safonau a monitro cynnydd yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer eich maes cyfrifoldeb eich hun.
- Bod yn rhan o gynllunio strategol ar lefel adrannol drwy amrywiol lwybrau a chyfrannu at brosesau cynllunio strategol y Sefydliad.
- Cynllunio a chyflwyno rhaglenni ymgynghori neu raglenni tebyg o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.
- Bod yn gyfrifol am ansawdd, archwilio ac asesiadau allanol eraill yn eich meysydd cyfrifoldeb eich hun.

Gofynion synhwraidd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwysu pwysau gofynion addysgu a gweinyddol a therfynau amser cystadleuol.

Amgylchedd gwaith

- Yng nghyd-destun Polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar y maes gwaith (e.e. labordai, gweithdai, stiwdios), gellir disgwyl i'r ymgeisydd gymryd cyfrifoldeb am gynnal asesiadau risg a lleihau peryglon.

Arbenigedd

- Dealltwriaeth fanwl o'ch arbenigedd eich hun i alluogi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn y maes.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i gyflawni eich rôl. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. Nid yw'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau i fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae'n debygol y bydd tasgau cysylltiedig eraill yn cael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Gwasanaethau Pobl ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: Uwch Ddarlithydd mewn Addysg Gychwynnol
Athrawon a Dysgu Proffesiynol (Arbenigedd
Cynradd)

Ysgol/Uned: Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol
Caerdydd

*Allwedd

A - Ffurflen gais
I - Cyfweliad
P - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESWYD GAN		
		A*	I*	P*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd dda.	✓		
	Cymhwyster Meistr.	✓		
	Statws Athro Cymwysedig.	✓		
	Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac o fewn tair blynedd i ddechrau cyflogaeth).	✓		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓		
	Cymhwyster lefel doethuriaeth neu brofiad proffesiynol cyfatebol mewn arweinyddiaeth o fewn y sector.	✓		
	Aelodaeth o Gorff Proffesiynol	✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Gwybodaeth fanwl am bedagogeg sy'n gysylltiedig ag AGA.	✓	✓	✓
	Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).	✓	✓	
	Dealltwriaeth gadarn o bedagogeg yng nghyd-destun Addysg Gynradd.	✓	✓	✓
	Dealltwriaeth fanwl o ymchwil/arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd.	✓		

Gwybodaeth (Dymunol)	Gwybodaeth fanwl sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol (Addysg Gynradd a/neu Addysg Gychwynnol Athrawon).	✓	✓	
	Cydnabyddiaeth genedlaethol/rhyngwladol mewn pwnc arbenigol a maes proffesiynol.	✓	✓	
Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddylunio, datblygu a chyflwyno ystod o raglenni ar lefel ôl-raddedig.	✓	✓	
	Y gallu i gyfrannu at adolygiad o gynllun rhaglenni yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau ansawdd a rheoliadau academiaidd ac i wneud newidiadau lle bo'n briodol.	✓	✓	
	Y gallu i gyfrannu at gyflawniad y Cynllun Gwella Partneriaeth, y Cynllun Datblygu Ysgol a phrosesau cynllunio strategol y sefydliad.	✓	✓	
	Y gallu i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad/gwelliant strategol e.e. cyrsiau newydd, ymgynghoriaeth.	✓		
	Y gallu i nodi (trwy ddadansoddi gwybodaeth reoli briodol) meysydd sydd angen gwella perfformiad e.e. niferoedd myfyrwyr, boddhad myfyrwyr.	✓		
	Y gallu i gymryd cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol megis cadeirio a chymryd rhan mewn pwyllgorau ysgol a sefydliadol, gan arwain prosiectau.	✓		
	Y gallu i gyfleu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd – cyflwyniadau, adroddiadau, deunyddiau dysgu, canlyniadau gweithgaredd ysgolheigaidd, adborth ac ati i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.	✓		
	Y gallu i arwain a chyfrannu at ddatblygiad timau er mwyn sicrhau perthnasoedd gwaith effeithiol a chynhyrchiol.	✓		
	Y gallu i arwain/datblygu/gweithio ar y cyd â nifer o rwydweithiau mewnol ac allanol, e.e. cymdeithasau proffesiynol, arholwyr allanol, partneriaid ysgol.	✓		
	Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol.	✓		
	Y gallu i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol mewn ffasiwn cywir ac amserol.	✓		
	Y gallu i roi cyngor proffesiynol i ystod eang o randdeiliaid.	✓		
Sgiliau a Galluoedd sy'n	N/A			

Ymwneud â'r Rôl (Dymunol)				
Profiad â Thâl/Di-dâl (Hanfodol)	Profiad o ddarparu arweinyddiaeth academaidd a chefnogaeth/mentora rheng gyntaf i gydweithwyr eraill. Profiad o ymwneud ag ymchwil bedagogaidd ac ymarferydd. Profiad o gyfrannu at ddatblygu strategaethau academaidd er enghraifft, addysgu a dysgu, ymchwil a menter. Profiad o reoli perfformiad drwy osod, monitro ac adolygu amcanion.	✓	✓	
Profiad â Thâl/Di-dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu ac ymchwil mewn lleoliad Addysg Uwch.	✓		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	N/A			
Gofynion Eraill Sgiliau Iaith Cymraeg (Dymunol)	<u>Gwrando, Darllen, Siarad, Ysgrifennu</u> A1 - Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. Y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	✓		
		✓		

*Bydd penodiad yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB gynt).